<u>Cyngor Cymdeithas Llanfihangelesceifiog</u>. Cofnodion cyfarfod misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, GAERWEN ar Nos Fawrth, 26ain MAWRTH 2019.

1 Presennol: **Cynghorwraig Mrs Barbara McKeaveney (Cadeirydd)**
Cynghorwyr Miss Linda Jones, Mrs Carol McGregor,
Ms Rhian Roberts, Mr Raymond Evans,
Mr Derek Hughes, Mr Cynrig Jones, Mr Ian Owen,
Mr John Pritchard, Mr Einion Parry Williams a
Mr J Alun Foulkes (Clerc).
Cynghorydd Sirol Mr Dafydd Roberts.

2 Ymddiheuriadau: **Cynghorydd Sirol Mr Eric Jones.**

3 <u>CROESO & DIOLCHIADAU</u>.

3.1 Croesawyd pob aelod i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

3.2 Cydymdeimlwyd aelodau a Cynghorydd Ian Owen a John Pritchard yn dilyn ei brofedigaethau.

3.3 Llongyfarchwyd Cynghorydd John Pritchard o ddod yn Daid.

4 <u>DATGAN DIDDORDEB</u>.

4.1 Datganwyd Cyng Carol McGregor diddordeb personol yn eitem busnes y Cyngor yn ymwneud a Eisteddfod Mon Bro Esceifiog 2020. Nid oedd y diddordeb personol yn un a oedd yn rhagfarnu ac fe cymerodd ran yn yr eitem.

5 EISTEDDFOD MON BRO ESCEIFIOG 2020.

5.1 Croesawyd aelodau yr Eisteddfod i'r cyfarfod. Rhoddwyd adroddiad llawn a chryno oddiwrth Mr Llifon Jones ar ran Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod. Yn dilyn hyn, cafwyd cais ganddynt am ddefnyddio y Cae Mawr ar gyfer Gwyl y Cyhoeddi ar bnawn Sadwrn, 11 Mai 2019 gyda gorymdaith o amgylch y pentref i ddilyn petai y tywydd yn caniatau. **CYTUNWYD YR AELODAU YN UNFRYDOL I'R CAIS.**

6 <u>CYWIRO & DERBYN COFNODION CYFARFOD – 26ain CHWEFROR 2019</u>.

6.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod Mis Chwefror 2019 yn gywir. (DH/EPW).

Arwyddo……

7 <u>MATERION YN CODI O'R COFNODION</u>.

7.1 **Arolwg Tai Lleol – Tai Fforddiadwy** – yn dilyn cyflwyniad a cafwyd yn y cyfarfod diwethaf – nodwyd fod diwrnod agored wedi ei chynnal ar yr 19eg Mawrth 2019.

7.2 **Sedd Gwag** – dywedodd y Clerc fod y sedd gwag wedi ei hysbysebu yn y drefn arferol ac nid oedd wedi derbyn unrhyw diddordeb. **Nodwyd fod y broses o gyf-ethol aelod newydd yn agored i'r Cyngor**.

7.3 **Llwybr Rhif 33** – roedd y Clerc am siarad gyda Mr Arwel Evans o'r Cyngor Sir a gofyn iddo ymweld a'r safle pan fydd yn gyfleus.

7.4 **Giat Cae Chwarae Mawr** – roedd y Clerc am anfon llythyr i atgoffa'r Adran Briffyrdd yn gofyn iddynt ystyried gosod llinellau gwyn a'r Lon Groes tu allan mynediad y Cae Chwarae.

7.5 **Lon Llangaffo** – roedd y Clerc am atgoffa a dwyn sylw'r Adran Briffyrdd fod angen datrys gordyfiant ar bolyn/ffens sydd wedi siglo dan bwysau eiddew ochr isa Capel Berea ac ail-lleoli arwydd 40mya tuag at cyfeiriad Llangaffo.

7.6 **Postyn Gol & Graffiti** – dywedodd Cynghorydd Ian Owen fod y gwaith sydd angen mewn llaw.

7.7 **Lles Cae Chwarae (Clwb Pel Droed)** – y Clerc am gysylltu gyda'r Adran Eiddo yn gofyn iddynt am ymateb swyddogol o'r sefyllfa diweddaraf.

7.8 **Cynnal & Cadw Gwyneb Safle Maes Chwarae – disgwyl am ail bris cyn symud ymlaen.**

7.9 **Offer Seasaw** – wedi derbyn amcancyfrif o'r gwaith a symud ymlaen cyn gynted a phosib.

7.10 **Lamp Stryd Gardd y Mileniwm** – y Clerc i ddwyn sylw nad oedd y lamp yn gweithio ac fod angen sylw.

7.11 **Maes Parcio Lon Gors** – angen clirio coeden ddraenan du a oedd wedi disgyn I'r maes parcio. Cynghorydd Ian Owen i gysylltu gyda Mr O G Jones

7.12 **Adroddiad Gor Yrru Stryd y Capel** – y Clerc am ofyn i'r Cyngor Sir os oedd posib trefnu astudiaeth newydd o'r safle.

7.13 **Cofrestr Asedau y Cyngor** – roedd y rhestr wedi ei drosglwyddo i law y Clerc ar gyfer yr Archwiliad Blynyddol

Arwyddo…….

8 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIROL.

8.1 Adroddiad Cwmni Dawnus Construction sydd wedi achosi trafferthion enfawr i'r Cyngor Sir

8.2 Effaith Brexit ar dyfodol economi'r Ynys.

8.3 Adroddiad Sefyllfa Presennol Tai sydd yn eiddo'r Cyngor Sir.

8.4 Trafodaeth bellach ar yr effaith o codi y Dreth ar drigolion yr Ynys.

9 MATERION PRIFFYRDD.

9.1 Nodwyd Gorchymyn Gwahardd Traffig Trwodd Dros Dro (Pont Tri Bwa, Llangaffo B4419) yn ystod diwedd Mis Mawrth a Mis Ebrill 2019.

9.2 Nodwyd Gorchymyn Gwahardd Traffig Trwodd Dros Dro (Lon Chwarel, Llangaffo) rhwng 1af a 5ed Ebrill 2019.

9.3 **Stad Rhos Wen – Arwydd ' No Through Road' -** angen gofyn i'r Cyngor Sir ystyried arwydd mwy

10 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

10.1 Cais Cynllunio 3 Rhestai Rhos, Ffordd Caergybi, Gaerwen (33C320) – DIM SYLWADAU AR Y CYNLLUN DATBLYGU ond fe fydd rhaid symud arwydd yn dynodi'r safle.

11 CAIS CYNLLUNIO MAES PARCIO CYFFORDD 7 (A55) GAERWEN (FPL/2018/30).

11.1 Cafwyd trafodaeth sydyn yn datgan siom fod y cynllun am symud ymlaen er gwaethaf y newyddion nad oedd datblygu Wylfa Newydd am ddigwydd. Roedd y Clerc am sicrhau fod pob aelod yn derbyn copi o'r penderfyniad pan fydd yn gyfleus ond dangoswyd syndod fod y penerfyniad wedi ei wneud heb fod wedi derbyn sylwadau perthnasol rhai o'r ymgyngoreion

Arwyddo…….

12 CAIS CYNLLUNIO DYMCHWEL Y LLADD-DY PRESENNOL YNGHYD A CODI STAD DIWYDIANNOL NEWYDD GER LLADD-DY, GAERWEN (SCR/2018/7)

12.1 Roedd y Clerc wedi rhannu cyhoeddusrwydd y cynllun o dan erthyglau 2C & 2D o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref yn gwahodd i unrhyw un ymateb i'r ymgynghoriad cyn bwriadu gwneud caniatad cynllunio llawn ffurfiol ar y safle. Roedd rhaid ymateb i'r ymgynghoriad erbyn 23ain Ebrill 2019.

13 <u>MATERION CYLLID</u>.

13.1 Cysoni Taliadau, Derbyniadau & Cyfrif y Cyngor hyd at 28/02/2019 – cafwyd esboniad llawn o holl wariant y Cyngor hyd at ddiwedd Mis Chwefror 2019 gan cynnwys cysoniad a datganiad y banc ac fe dderbyniwyd ac arwyddwyd y fantolen yn unfrydol.

13.2 Mabwysiadwyd Rheolau Cyllid Newydd y Cyngor.

13.3 Mabwysiadwyd Rheolau Gorchymyn Statudol Newydd y Cyngor

14. <u>ADRODDIADAU CYNRYCHIOLWYR</u>.

14.1 **Fforwm Cynghorau Tref & Chymuned** – cafwyd adroddiad oddiwrth Cynghorydd Einion P Williams gyda diolch – fe fydd y Clerc yn dosbarthu copio'r cofnodion unwaith y bydd wedi ei derbyn

15 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 23/4/2019.

15.1 Clowyd y cyfarfod am 8:20yh.

Arwyddo…….CADEIRYDD…..……Dyddiad.